**RHYBUDD o Benderfyniadau Cyfarfod Y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni , ddydd Llun, 30 Ebrill, 2018**

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5:00 y. p. ar ddydd Iau, 3 Mai, 2018. Rhaid cyflwyno unrhyw geisiadau i alw i mewn unrhyw benderfyniad i'r Prif Weithredwr erbyn dim hwyrach na 5:00 y. p. ar ddydd Gwener, 11 Mai, 2018. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) ar ddydd Llun, 14 Mai, 2018.

**Yn bresennol**: Y Cynghorwyr R. Dew, John Griffith, Llinos Medi Huws (Cadeirydd), R. Meirion Jones, R G Parry OBE, FRAgS, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams, Alun Wyn Mummery a Carwyn Jones.

**Hefyd yn bresennol**: Y Cynghorwyr Lewis Davies, Aled M. Jones, Eric Jones, R. Llewelyn Jones, Shaun Redmond, Dylan Rees, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Nicola Roberts.

**Ymddiheuriadau**: Dim

(10:00 y. b. – 12:15 y. p)

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **3 Cofnodion**<br>Amherthnasol |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cadarnhau cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 26 Mawrth, 2018.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Amherthnasol** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4 Cofnodion - Panel Rhiant Corfforaethol**<br>Amherthnasol |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cadarnhau cofnodion drafft y cyfarfod o'r Panel Rhiant Corfforaethol a gynhaliwyd ar 19 Mawrth, 2018.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Amherthnasol** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **5 Cofnodion er Gwybodaeth**<br>Amherthnasol |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cadarnhau cofnodion drafft y cyfarfod o Bwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol a gynhaliwyd ar 9 Chwefror, 2018.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Amherthnasol** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **6 Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith**<br>Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cadarnhau Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith am y cyfnod Mai i Rhagfyr 2018 yn amodol ar y newidiadau ychwanegol a amlinellwyd yn y cyfarfod.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Er mwyn cryfhau trefniadau atebolrwydd a blaengynllunio.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **7 Cyllideb Refeniw i Melin Llynnon**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cymeradwyo cyllideb o £42,170 i ariannu costau rhedeg Melin Llynnon fel atyniad i ymwelwyr yn 2018. Caiff y gyllideb ei hariannu o Falansau Cyffredinol y Cyngor.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cymeradwyo cyllideb i gefnogi Melin Llynnon fel atyniad i ymwelwyr yn 2018.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| | |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **8 Cynllun Llesiant - Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus**<br>Adroddiad gan y Prif Weithredwr |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd argymell i'r Cyngor Llawn–**<br><br>• **Ei fod yn cymeradwyo'r Cynllun Llesiant Lleol ar gyfer ei gyhoeddi gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ynys Môn a Gwynedd.**<br>• **Ei fod yn mabwysiadu'r Cynllun Llesiant a'i fod yn cael ei ymgorffori fel rhan o Fframwaith Polisi'r Cyngor i ddisodli'r Cynllun Integredig Sengl yng Nghyfansoddiad y Cyngor.**<br>• **Mai'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio fydd y pwyllgor sgriwtini dynodedig ar gyfer craffu gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.**<br>• **Y dylid diwygio adran 3.2 o Gyfansoddiad y Cyngor i gynnwys cymeradwyo penderfyniadau mewn perthynas â'r Cynllun Llesiant fel swyddogaeth na fedr ond y Cyngor llawn ei harfer; a dileu'r cyfeiriad at y Cynllun Integredig Sengl.**<br>• **Y dylid diwygio adran 2.6.2 o Gyfansoddiad y Cyngor er mwyn penodi'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio fel y pwyllgor sgriwtini dynodedig ar gyfer craffu ar waith y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.**<br>• **Ei fod yn awdurdodi'r Pennaeth Swyddogaeth (Buses y Cyngor) / Swyddog Monitro'r Cyngor i wneud yr holl newidiadau angenrheidiol a chanlyniadol i Gyfansoddiad y Cyngor i adlewyrchu bod y materion a restrir uchod wedi cael eu cymeradwyo.**<br>• **Ei fod yn awdurdodi'r Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro i wneud unrhyw welliannau yn y dyfodol, fel a pan fyddant yn codi, i gyfansoddiad y** |

| | |
|---|---|
| | Cyngor (a) pan fyddant yn ymwneud â, neu (b) yn codi o ganlyniad i'r materion uchod, yn amodol a ymgynghoriad gydag arweinwyr grwpiau a dim gwrthwynebiadau yn codi. |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Ymateb i'r gofynion statudol** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Na. Bydd y mater yn cael ei ystyried gan y Cyngor Llawn.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **9 Moderneiddio Ysgolion - Ardal Llangefni - Adroddiad yn dilyn yr ymgynghori statudol (Corn Hir, Bodffordd a Henblas)**<br>Adroddiad gan y Dirprwy Brif Weithredwr |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br>• **Cymeradwyo Opsiwn 2, sef adeiladu ysgol newydd ar gyfer ysgolion Bodffordd a Corn Hir a pharhau i gynnal darpariaeth addysgol yn Llangristiolus naill ai drwy gynnal Ysgol Henblas ar ei ffurf gyfredol neu fel ysgol aml-safle [h.y. uno Henblas gyda'r ysgol newydd a chreu un ysgol ar ddau safle]. Byddai rhaid i'r penderfyniad hwn fod yn gysylltiedig â chael sicrwydd mewn blwyddyn [h.y. erbyn diwedd blwyddyn ysgol 2018/19] bod safonau yn Ysgol Henblas yn codi, bod cyflymder cyfredol y gwelliant yn cynyddu a bod y rhagolygon o ran niferoedd disgyblion yn parhau'n gyson neu yn codi.**<br>• **Bod trafodaethau yn cael eu cynnal gyda Chyngor Cymuned Bodffordd a chyda cymuned Bodffordd er mwyn diogelu a chadw'r neuadd gymuned. Y trafodaethau hynny i gychwyn yn ystod y 6 wythnos nesaf.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Symud ymlaen gyda'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion yn Ynys Môn.** |

| | |
|---|---|
| | |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **10 Strategaeth Gwrth Dlodi**<br>Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Tai |
| PENDERFYNIAD | **Cymeradwyo'r Strategaeth Gwrth-Dlodi fel y gellir ymgynghori yn ei chylch.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cymeradwyo Strategaeth Gwrth-Dlodi ar gyfer ymgynghori** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

## EITEM GYFRINACHOL

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **12 Benthyciad Pontio i Grwp Neuadd Bentref Llanddona**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cymeradwyo benthyciad pontio ar y telerau a'r amodau a nodir yn yr adroddiad.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cymeradwyo benthyciad pontio.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |